



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol

Ymgynghoriad ar Bennod 31 o'r Cod ADY drafft; ynghylch cynrychiolwyr rhieni plant a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd meddyliol mewn perthynas â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Dyddiad cyhoeddi: 3 Medi 2020
Camau gweithredu: Ymatebion erbyn 29 Hydref 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Pennod 31 – Cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar Bennod 31 o God ADY drafft Llywodraeth Cymru. Mae'r bennod yn ymwneud â phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd ar yr adeg berthnasol, yn ogystal â rhieni plentyn lle nad oes gan riant alluedd meddyliol ar yr adeg berthnasol, a'u hawl i gael cynrychiolydd o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost neu'r post i'r cyfeiriad isod, i gyrraedd erbyn 29 Hydref 2020 fan bellaf.

Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

- Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad – Ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft ynghylch rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd
- Ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft ynghylch rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd meddyliol – fersiwn i bobl ifanc
- Ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft ynghylch rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd – fersiwn hawdd ei darllen

Gellir gweld y dogfennau uchod ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

- Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft (Rhagfyr 2018-Mawrth 2019): <https://llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft>

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Tîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: SENreforms@gov.wales
Ffôn: 03000 062 6666



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd rheolydd data unrhyw ddata personol rydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn dibynnu ar y pwerau statudol sydd ganddynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau hyddysg ar y ffordd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy neu drefnu ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Lle mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith dadansoddi pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gellir comisiynu trydydd parti achrededig i gynnal y gwaith hwn (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir ag unrhyw waith o'r fath o dan contract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn gywir, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, bydd unrhyw ddata a ddelir gan Lywodraeth Cymru amdanoch yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a ddelir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Mae manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	11
Ein cynigion	13
Y Camau Nesaf	16

Cyflwyniad

1. Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('Deddf 2018') gydsyniad brenhinol ym mis Ionawr 2018.
2. Mae Deddf 2018 yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ('ADY'). Bydd y fframwaith hwn yn disodli deddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig ('AAA') a'r broses o asesu pobl ifanc ag anawsterau a/neu anabledau dysgu ('AAD') mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.
3. Mae Deddf 2018 yn pennu tri amcan cyffredinol, y bwriedir i'r Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig eu cefnogi hefyd. Yr amcanion yw:
 - Fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer cefnogi pob plentyn ag ADY sydd o oedran ysgol gorfodol neu'n iau a phob person ifanc sydd ag ADY sydd mewn ysgol neu addysg bellach;
 - Proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro ac ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol;
 - System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau.
4. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod ar ADY ('y Cod ADY') a dylid ymgynghori â'r unigolion canlynol ynghylch y Cod hwnnw:
 - (a) pob awdurdod lleol yng Nghymru;
 - (b) corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru;
 - (c) corff llywodraethu pob sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru;
 - (d) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
 - (e) Comisiynydd Plant Cymru;
 - (f) Comisiynydd y Gymraeg;
 - (g) pwyllgor perthnasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am addysg plant a phobl ifanc;
 - (h) unrhyw unigolyn arall fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn briodol.
5. Mae Deddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â darpariaethau penodol, ac mae'n rhoi nifer o bwerau llunio rheoliadau i Weinidogion Cymru. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer pobl ifanc (unigolion dros oedran ysgol gorfodol) a rhieni plant (oedran ysgol gorfodol ac iau) nad oes ganddynt alluedd¹.

Ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft a'r rheoliadau drafft

6. Rhwng 10 Rhagfyr 2018 a 22 Mawrth 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft; y rheoliadau drafft yn ymwneud â Thribiwnlys

¹ Adran 83(2) o Ddeddf 2018. Yn ogystal, mae Deddf 2018 yn diwygio Atodlen 17, rhan 2, para 6F o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010') i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer rhieni ac unigolion dros oedran ysgol gorfodol nad oes ganddynt alluedd, mewn perthynas â honiadau o wahaniaethu ar sail anabled i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn yr ysgol (Atodlen 1, para 19(5)(h) o Ddeddf 2018).

Addysg Cymru a Chydlynwyr ADY; y bwriad polisi ar gyfer nifer o reoliadau arfaethedig eraill; a diwygiadau arfaethedig i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014'), Rhan 6 Cod Ymarfer – Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya, a wnaed yn bennaf mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY.

7. Roedd y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gyda'r Cod drafft a'r rheoliadau drafft yn egluro nad oedd y rheoliadau i'w gwneud o dan adran 83(2) o Ddeddf 2018 (i ddarparu ar gyfer rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd) wedi'u drafftio eto gan fod dyfarniad y Goruchaf Lys ynghylch achos Re D (UK SC 2018/006), a glywyd ar 3 a 4 Hydref 2018, yn dal i fod yn yr arfaeth. Gallai canlyniad yr achos hwn fod wedi arwain at oblygiadau i bobl ifanc 16 a 17 oed nad oes ganddynt alluedd a'r broses o gymhwyso Deddf Galluedd Meddyliol 2005 mewn perthynas â'r grŵp oedran hwn. Roedd y ddogfen ymgynghori yn egluro bwriad Llywodraeth Cymru i ddrafftio rheoliadau adran 83, ac ymgynghori arnynt, yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys ynghylch Re D², ac unrhyw newidiadau perthnasol i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2015 y gallai'r Bil Galluedd Meddyliol (diwygio) fod wedi'u gwneud wth iddo fynd drwy'r Senedd.³

Ymgynghoriad ar bennod 31 o'r Cod ADY drafft – Cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol

8. Mae'r rheoliadau drafft i'w gwneud o dan adran 83(2) o Ddeddf 2018 i ddarparu ar gyfer pobl ifanc a rhieni nad oes ganddynt alluedd, ynghyd â phennod ddrafft gyfatebol o'r Cod ADY, bellach wedi'u drafftio. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn am y rheoliadau drafft ynghylch rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd meddyliol a'r bennod yn y Cod drafft.
9. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu barn plant a phobl ifanc (y mae dogfen ymgynghori ar wahân ar gael ar eu cyfer); rhieni; ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc; sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio gyda theuluoedd; cynrychiolwyr pobl ifanc a rhieni nad oes ganddynt alluedd; ac unrhyw un arall â diddordeb. Mae fersiwn hawdd ei deall a fersiwn Cymraeg Clir o'r ymgynghoriad hefyd ar gael.
10. Mae pandemig y Coronafeirws wedi effeithio ar bob agwedd ar fywyd, gan greu her ddigynsail o ran y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd ei blaenoriaethau deddfwriaethol presennol. Yn sgil yr angen i adleoli adnoddau ar frys, mae'r ymgynghoriad arfaethedig hwn wedi'i oedi'n sylweddol. Er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei therfynau amser ar gyfer cyflwyno'r Cod ADY a'r rheoliadau gerbron y Senedd a'u rhoi ar waith yn 2021, bu angen lleihau'r cyfnod ymgynghori o 12 wythnos i 8 wythnos. Fodd bynnag, gan fod penodau drafft y cod, y rheoliadau drafft a'r ddogfen ymgynghori ei hun yn gymharol fyr, ac mai nifer cymharol fach o bobl y byddant yn effeithio arnynt, rydym yn hyderus y bydd y cyfnod ymgynghori yn rhoi digon o gyfle i ymgynghoreion gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac ystyried y cynigion mewn ffordd ystyrlon.

² Cyhoeddwyd dyfarniad y Goruchaf Lys ar 29 Medi 2019.

³ Dogfen ymgynghori – Fersiwn Ddrafft o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (tudalen 5): https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-12/dogfen-ymgynghori-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft_0.pdf

Codau Ymarfer Llywodraeth y DU

11. Mae pennod y Cod ADY drafft ar gynrychiolwyr rhieni plant a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd meddyliol yn cyfeirio at y canllawiau presennol a bennir yng Nghod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol⁴ mewn perthynas ag asesu galluedd; rôl cynrychiolwyr a sut y cânt eu penodi neu eu creu; sut mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn berthnasol i bobl ifanc; a'r gallu i gael gafael ar wybodaeth am unigolyn nad oes ganddo alluedd⁵.

Ein cynigion

Cyd-destun

12. Un o'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r system ADY, fel y gwelir yn y Cod ADY drafft a Deddf 2018, yw dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau lle mae safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhieni'r plentyn neu'r person ifanc wrth wraidd y broses o gynllunio a darparu cymorth; a lle mae'r plentyn, rhieni'r plentyn neu'r person ifanc yn cael eu galluogi i gymryd rhan mor lawn â phosibl yn y prosesau gwneud penderfyniadau ac arfer eu hawliau yn ôl yr angen.

13. O ran pobl ifanc a rhieni plant nad oes ganddynt alluedd ar yr adeg berthnasol, mae Rheoliadau pobl ifanc a rhieni plant nad oes ganddynt alluedd drafft 2020 yn gwneud darpariaeth i riant plentyn neu berson ifanc nad oes ganddo alluedd gael cynrychiolydd i sicrhau bod ei hawliau'n cael eu cynnal.

Pwy all fod yn gynrychiolydd?

14. Mae Rheoliad 2 yn pennu pwy all fod yn gynrychiolydd ar gyfer riant plentyn neu berson ifanc nad oes ganddo alluedd ar yr adeg berthnasol (h.y. pan fydd angen gwneud penderfyniad ynghylch anghenion ADY neu pan fydd angen rhannu gwybodaeth). Yn fras, gall cynrychiolydd fod yn un o'r tri unigolyn canlynol, yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005; dirprwy a benodwyd gan y Llys Gwarchod; derbynydd atwrneiaeth arhosol; neu atwrnai ag atwrneiaeth barhaus.

15. Fodd bynnag, lle nad oes gan berson ifanc gynrychiolydd a restrir yn rheoliadau 2(a)(b) ac (c) ac a nodir uchod, mae rheoliad 2(d) yn caniatáu i riant y person hwnnw weithredu fel ei gynrychiolydd. Y rheswm dros hyn, yn y rhan fwyaf o achosion, yw ein bod o'r farn y bydd gan riant ddealltwriaeth dda o ADY y person ifanc ac y bydd yn gwneud penderfyniadau er budd gorau'r person ifanc.

4

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/497459/Deddf-gallu-meddyliol-cod-ymarfer.pdf

⁵ Bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar y Cod Ymarfer diwygiedig cyn i'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ddod i rym.

16. Os nad oes gan unigolyn alluedd ac nad oes ganddo gynrychiolydd, byddai disgwyl i'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r unigolyn geisio sicrhau y caiff camau eu cymryd i sicrhau bod cynrychiolydd gan yr unigolyn nad oes ganddo alluedd.
17. Er mwyn cael cynrychiolydd, bydd angen dilyn y gofynion a bennir yn Neddf Galluedd Meddyliol 2018, a'r canllawiau ategol sy'n rhan o God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol, fel y bo'n briodol ar gyfer pob un o'r tri math o gynrychiolydd a restrir yn rheoliadau drafft 2(a)(b) ac (c). Gall hyn gynnwys mynd i'r llys gwarchod er mwyn penodi dirprwy.
18. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer rhieni plant a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd yn adlewyrchu'r rhai a bennir yn Rhan 6 o Reoliadau Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2014 Lloegr ('y rheoliadau SEND') i raddau helaeth. Yr eithriad yw nad yw'r rheoliadau drafft hyn yn efelychu rheoliad 64(2)(c) o'r rheoliadau SEND, sy'n caniatáu i gynrychiolydd riant y person ifanc gynrychioli'r person ifanc hwnnw, lle nad oes gan riant y person ifanc alluedd ychwaith ar yr adeg berthnasol ac nad oes gan y person ifanc gynrychiolydd.

Yr hyn rydym yn ei gynnig

19. Rydym yn cynnig y bydd y rheoliadau hyn yn caniatáu i gyfeiriadau at riant plentyn neu berson ifanc yn Neddf 2018 gael eu dehongli fel cyfeiriad at ei gynrychiolydd, **neu'r** cynrychiolydd a riant plentyn neu berson ifanc, fel bod y ddau ohonynt yn cael eu cynnwys.
20. Lle y pennir yn y rheoliadau drafft, gall cynrychiolydd, ar ran riant plentyn, neu berson ifanc, nad oes ganddo alluedd, wneud penderfyniadau; anfon neu dderbyn dogfennaeth a hysbysiadau yn ymwneud ag ADY; mynd i asesiadau a chyfarfodydd adolygu'r cynllun datblygu unigol; bod yn rhan o drafodaethau am ddatblygiad y cynllun datblygu unigol; ac apelio i'r Tribiwnlys Addysg⁶.

Dehongli riant plentyn neu berson ifanc fel 'cynrychiolydd' neu'r ddau

Cyfeiriadau yn Neddf 2018

21. Yn y rhan fwyaf o achosion, credwn y byddai'n briodol i gyfeiriadau at riant plentyn neu berson ifanc yn Neddf 2018 a'r cyfeiriadau cyfatebol yn yr adrannau perthnasol o Ddeddf 2010, gael eu dehongli fel cyfeiriad at y cynrychiolydd yn unig. Nodir ein cynnig a'n rhesymeg isod.

Hawl/Dyletswydd	Dehongli cyfeiriad fel cynrychiolydd, neu riant/person ifanc a chynrychiolydd	Rhesymeg
-----------------	---	----------

⁶ Rheoliad 13 o Reoliadau Deddf Tribiwnlys Addysg Cymru 2019

<p>Hawl person ifanc i gydsynio i gynlluniau datblygu unigol gael eu paratoi a'u cynnal, yn benodol adrannau 11(3)(c) (ail gyfeiriad), 12(2)(b) (ail gyfeiriad), 13(2)(d) (ail gyfeiriad), 14(3) (ail gyfeiriad)</p>	<p>Dylid dehongli cyfeiriadau at hawl person ifanc i gydsynio fel cyfeiriad at y cynrychiolydd yn unig.</p>	<p>O ystyried bod yn rhaid i unigolyn feddu ar alluedd meddyliol i allu rhoi ei gydsyniad, mae'n rhesymol i berson ifanc nad oes ganddo alluedd meddyliol gael cynrychiolydd i weithredu ar ei ran ynghylch materion yn ymwneud â chydsyniad.</p>
<p>Hawliau i wneud cais am benderfyniad, neu ei herio, yn benodol adrannau 23(8); 24(7); 26(1)(b); 27(1)(b); 28(2)(a),(b), (4), (5) a (7); 32(1)(b); 84(5)(b); 70(2) a (3); 72(2); 84(5)(b).</p>	<p>Dylid dehongli cyfeiriadau at riant plentyn neu berson ifanc sy'n ymwneud â cheisiadau am rywbeth fel cyfeiriad at y cynrychiolydd yn unig.</p>	<p>Lle nad oes gan unigolyn alluedd ar adeg berthnasol, mae'n briodol galluogi ei gynrychiolydd i herio neu wneud ceisiadau ar ei ran, er enghraifft gwneud cais am adolygiad o gynllun datblygu unigol.</p>
<p>Dyletswyddau i hysbysu a rhoi gwybodaeth i rieni a phobl ifanc, yn benodol adrannau 22(1)(b), (2)(b); 23(10), (11); 24(9), (10); 27(4); 28(4), (5), (7); 31(7)(b), (8), (9); 32(1)(a), (3); 42(6); 64(3).</p>	<p>Dylid dehongli cyfeiriadau at riant plentyn neu berson ifanc sy'n ymwneud â dyletswyddau i hysbysu yn bennaf fel cyfeiriad at y cynrychiolydd yn unig.</p>	<p>Mae'r adrannau hyn yn ymwneud â hysbysiadau am adolygiadau a diwygiadau i gynlluniau datblygu unigol, darparu copïau, rhannu penderfyniadau i beidio â diwygio cynlluniau, penderfyniadau ALLau ynghylch a ddylid ymgymryd â chynlluniau cyrff llywodraethu, penderfyniadau ynghylch rhoi'r gorau i gynnal cynlluniau a phenderfyniadau cyrff iechyd i hysbysu rhieni bod gan blentyn ADY.</p>
<p>Dyletswyddau yn ymwneud â chynghor a gwybodaeth, yn benodol adrannau 9(3)(a)(b), (4)(a)(b)</p>	<p>Dylid dehongli cyfeiriadau at riant plentyn neu berson ifanc sy'n ymwneud â dyletswyddau i wneud trefniadau i roi cynghor a gwybodaeth fel cyfeiriad at y person ifanc a'i gynrychiolydd, neu riant y plentyn a'i gynrychiolydd.</p>	<p>Gallai awdurdod lleol gynhyrchu fersiwn hawdd ei deall o'i drefniadau ar gyfer datrys anghydfodau, a fyddai'n briodol i'w hanfon at unigolyn nad oes ganddo alluedd.</p>

<p>Dyletswyddau yn ymwneud â threfniadau i osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol, yn benodol adrannau 68 a 69.</p>	<p>Rhaid i drefniadau a wneir gan awdurdod lleol i osgoi a datrys anghytundebau ganiatáu i gynrychiolydd fod yn rhan o'r trefniadau ar ran rhiant y plentyn neu'r person ifanc.</p> <p>Os bydd cynrychiolydd yn gwneud cais am wasanaeth eirioli annibynnol ar ran y person ifanc, rhaid i'r awdurdod lleol gyfeirio'r cynrychiolydd at ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol.</p>	<p>Heb gymorth cynrychiolydd, mae'n annhebygol y byddai unigolyn nad oes ganddo alluedd yn gallu ymgysylltu'n briodol â threfniadau neu wasanaethau o'r fath.</p>
---	--	---

Cwestiwn 1:

A yw'r darpariaethau ar gyfer dehongli rhiant plentyn fel y cynrychiolydd, neu'r rhiant a'r cynrychiolydd, mewn achosion lle nad oes gan y rhiant alluedd, yn briodol?

Cwestiwn 2:

A yw'r darpariaethau ar gyfer dehongli person ifanc fel y cynrychiolydd, neu'r cynrychiolydd a'r person ifanc, mewn achosion lle nad oes gan y person ifanc alluedd, yn briodol?

Cyfeiriadau mewn rheoliadau eraill ac yn y Cod ADY i'w gwneud o dan Ddeddf 2018

22. Rydym yn cynnig y dylai unrhyw gyfeiriadau at riant plentyn neu berson ifanc mewn rheoliadau eraill ac yng ngofynion y Cod i'w gwneud o dan Ddeddf 2018 gael eu dehongli fel cyfeiriad at gynrychiolydd lle mae hawl gan riant plentyn neu berson ifanc i wneud cais am benderfyniad, neu ei herio, neu gael gwybodaeth.

Cwestiwn 3:

Mae'r darpariaethau yn y rheoliadau drafft a'r bennod o'r Cod yn caniatáu i riant person ifanc, lle nad oes gan y person ifanc gynrychiolydd (fel y diffinnir yn rheoliad 2), weithredu fel ei gynrychiolydd. A yw'r cynnig hwn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng caniatáu i unigolion wneud eu penderfyniadau eu hunain a chaniatáu i gynrychiolwyr wneud penderfyniad ar ran yr unigolion hynny nad oes ganddynt alluedd?

Cwestiwn 4:

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r rheoliadau drafft neu'r bennod o'r Cod?

Y Camau Nesaf

23. Bwriedir i'r drafft terfynol o'r Cod ADY a'r rheoliadau gael eu cyflwyno gerbron y Senedd yn gynnar yn 2021, gyda'r nod o roi'r system ADY newydd ar waith fesul cam o fis Medi 2021. Dylai'r rolau statudol a grëir o dan y Ddeddf – y Cydlynnydd ADY, y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig a Swyddog Arweiniol ADY y Blynnyddoedd Cynnar – ddechrau ym mis Ionawr 2021 o hyd.

24. Yn y cyfamser, rhaid i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir barhau i gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol presennol (yn enwedig y rhai yn Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 a'r rheoliadau a wneir oddi tani).

25. I gael rhagor o wybodaeth am y broses o roi Deddf 2018 ar waith, gweler:

<https://llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-anghenion-addysgol-arbennig>